*Gorchymyn drafft yn y Cyfrin Gyngor a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 16(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, i'w gymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L D R A F F T

# 2025 Rhif (Cy. ) (C. )

# Y GYFRAITH GYFANSODDIADOL

## CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

## SENEDD CYMRU

# Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2025

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dynodi, at ddibenion etholiad i Senedd Cymru pan gynhelir y pôl ar neu ar ôl 6 Ebrill 2026, swyddi y mae eu deiliaid wedi eu hanghymhwyso rhag bod yn Aelodau o'r Senedd (ond nid rhag bod yn ymgeisydd i fod yn Aelod o'r Senedd). Mae'r swyddi wedi eu disgrifio yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Mae swyddi eraill sy'n anghymhwyso a chategorïau o bersonau sydd wedi eu hanghymhwyso rhag bod yn Aelodau o'r Senedd (ac mewn rhai achosion rhag bod yn ymgeisydd i fod yn Aelod o'r Senedd) wedi eu rhagnodi gan adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) ac Atodlen 1A iddi. Dylai'r Gorchymyn hwn gael ei ddarllen gyda'r darpariaethau hynny.

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020 (O.S. 2020/1255), er bod y Gorchymyn hwnnw yn parhau i gael effaith ar gyfer etholiad i Senedd Cymru pan gynhelir y pôl cyn 6 Ebrill 2026.

*Gorchymyn drafft yn y Cyfrin Gyngor a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 16(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, i'w gymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
D R A F F T

# 2025 Rhif (Cy. ) (C. )

# Y GYFRAITH GYFANSODDIADOL

# CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

# SENEDD CYMRU

## Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2025

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | ***** |
| *Yn dod i rym* | *13 Tachwedd 2025* |

Yn y Llys ym Mhalas Buckingham, ar y 12fed dydd o Dachwedd 2025

Yn bresennol,

Ei Ardderchocaf Fawrhydi'r Brenin yn y Cyfrin Gyngor

Yn unol ag adran 16(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**1**) gosodwyd drafft o'r Gorchymyn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

Gan hynny, mae'n bleser gan Ei Fawrhydi, yn unol ag adrannau 16(1)(b) a (5), a 157(1) a (2) o'r Ddeddf

(**1**) 2006 p. 32. Gwnaed diwygiadau perthnasol i adran 16 gan adrannau 29 a 42 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (dccc 1) a pharagraff 2 o Atodlen 1 iddi, a chan adran 61 o Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 (dsc 5).

honno, yn ôl cyngor a chyda chyngor Ei Gyfrin Gyngor, orchymyn fel a ganlyn:

### Enwi a dod i rym

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2025.

(2) Daw i rym ar 13 Tachwedd 2025 ond nid yw erthyglau 2 a 3 ond yn cael effaith at ddibenion etholiad i Senedd Cymru pan gynhelir y pôl ar neu ar ôl 6 Ebrill 2026.

### Dynodi swyddi sy'n anghymhwyso

**2.**—(1) Mae'r swyddi a ddisgrifir yn yr Atodlen wedi eu dynodi'n swyddi a ddelir gan berson, neu bersonau, sy'n anghymhwyso'r person hwnnw, neu'r personau hynny, rhag bod yn Aelod o'r Senedd.

(2) Yn yr erthygl hon, mae i "swyddi" yr un ystyr ag a roddir i "offices" yn adran 16(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

### Dirymu

**3.**Mae Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020(**1**) wedi ei ddirymu.

*Enw*
Clerc y Cyfrin Gyngor

## YR ATODLEN

Erthygl 2

## Swyddi sy'n anghymhwyso personau rhag bod yn Aelod o'r Senedd

**Tabl 1**

| *Cyrff y mae swyddi sy'n anghymhwyso mewn cysylltiad â hwy* | *Y swyddi sy'n anghymhwyso* |
|---|---|
| Amgueddfa Genedlaethol Cymru (rhif yr elusen: 525774) | Yr Ymddiriedolwyr a benodwyd gan Weinidogion Cymru yn unol ag erthygl 3 o'i Siarter Atodol a roddwyd ar 19 Medi 2006 |
| Yr Archwilydd Achosion Annibynnol dros yr Adran Gwaith a Phensiynau | Yr holl aelodau |

(**1**) O.S. 2020/1255.

| | |
|---|---|
| Yr Asiantaeth Safonau Bwyd | Yr holl aelodau a benodwyd o dan adran 2(1) a (2), neu adran 3(1) a (4), o Ddeddf Safonau Bwyd 1999(**1**) |
| Awdurdod Cyllid Cymru | Y Cadeirydd ac aelodau Anweithredol eraill a benodwyd o dan adran 3(1)(a) neu (b) o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016(**2**) |
| Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd | Yr holl aelodau a benodwyd o dan adran 25(4) o Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013(**3**) a pharagraff 1(1) o Atodlen 4 iddi |
| Yr Awdurdod Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol | Yr holl aelodau a benodwyd o dan adran 5(2) o Ddeddf Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol 1990(**4**) |
| Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch | Yr holl aelodau a benodwyd o dan adran 10(2) o Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc. 1974(**5**) a pharagraff 1 o Atodlen 2 iddi |
| Awdurdod Heddlu Trafnidiaeth Prydain | Yr holl aelodau a benodwyd o dan adran 18(2) o Ddeddf Diogelwch y Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003(**6**) a pharagraff 1 o Atodlen 4 iddi |
| Awdurdod Iechyd Arbennig sy’n cyflawni swyddogaethau yn rhannol neu’n gyfan gwbl mewn cysylltiad â Chymru, ac a sefydlwyd gan Weinidogion Cymru o dan adran 22(1) o | Y Cadeirydd, yr aelodau cyswllt a’r aelodau nad ydynt yn swyddogion, heblaw aelod sydd hefyd yn gyflogai i’r Awdurdod |

(**1**) 1999 p. 28.
(**2**) 2016 (dccc 6).
(**3**) 2013 p. 24. Gwnaed diwygiadau perthnasol i baragraff 1(1) o Atodlen 4 i’r Ddeddf hon gan baragraff 2(2)(a) i (e) o Ddeddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 (p. 27).
(**4**) 1990 p. 37.
(**5**) 1974 p. 37. Amnewidiwyd adran 10(2) o’r Ddeddf hon gan erthygl 4 o Orchymyn Diwygio Deddfwriaethol (Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch) 2008 (O.S. 2008/960). Amnewidiwyd paragraff 1 o Atodlen 2 i’r Ddeddf hon gan erthygl 20 o O.S. 2008/960 ac Atodlen 1 iddo.
(**6**) 2003 p. 20.

| | |
|---|---|
| Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), neu gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 28(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006(**2**) | |
| Awdurdod lleol yng Nghymru | Person sy'n dal swydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol, o fewn ystyr Rhan 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 |
| Awdurdod y Marchnadoedd Nwy a Thrydan | Yr holl aelodau a benodwyd o dan adran 1(4) o Ddeddf Cyfleustodau 2000(**3**) a pharagraff 1(1) o Atodlen 1 iddi |
| Yr Awdurdod Meinweoedd Dynol | Yr holl aelodau a benodwyd o dan adran 13(2) o Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004(**4**) a pharagraff 1(1) o Atodlen 1 iddi |
| Yr Awdurdod Monitro Annibynnol ar gyfer Cytundebau Hawliau Dinasyddion | Yr holl aelodau a benodwyd o dan adran 15(3) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020(**5**) a pharagraff 1 o Atodlen 2 iddi |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru | Yr holl aelodau a benodwyd o dan erthygl 6 o Orchymyn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Cymru) 1995(**6**) a phersonau sy'n dal swydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol, o fewn ystyr Rhan 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989(**7**) |
| Yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr | Yr holl aelodau a benodwyd o dan adran 1A(3) o Ddeddf y |

(**1**) 2006 p. 42.
(**2**) 2006 p. 41.
(**3**) 2000 p. 27.
(**4**) 2004 p. 30. Diwygiwyd paragraff 1 o Atodlen 2 i'r Ddeddf hon gan adran 16(11)(a) o Ddeddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013 (dccc 5).
(**5**) 2020 p. 1.
(**6**) O.S. 1995/2803.
(**7**) 1989 p. 42.

| | |
|---|---|
| | Diwydiant Dŵr 1991(**1**) a pharagraff 1(1) o Atodlen 1A iddi |
| Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol | Yr holl aelodau a benodwyd o dan adran 25(4) o Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002(**2**) a pharagraff 4 o Atodlen 7 iddi |
| Awdurdod Twristiaeth Prydain | Yr aelod a benodwyd gan Weinidogion Cymru o dan adran 1(2)(b) o Ddeddf Datblygu Twristiaeth 1969(**3**) |
| Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol | Yr holl aelodau a benodwyd o dan adran 1A(4) o Ddeddf Gwasanaethau Ariannol a Marchnadoedd 2000(**4**) a pharagraff 2(2) o Atodlen 1ZA iddi |
| Bwrdd y Canolwyr Meddygol | Yr holl aelodau a benodwyd gan Weinidogion Cymru, neu yn unol â threfniadau a wnaed ganddynt, o dan reoliad 166(3) o Reoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015(**5**) |
| Y Bwrdd Cynghori ar y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | Y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd a benodwyd yn unol ag adran 7(1) o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau |

(**1**) 1991 (p. 56). Mewnosodwyd adran 1A(3) o'r Ddeddf hon gan adran 34(1) o Ddeddf Dŵr 2003 (p. 37), a mewnosodwyd paragraff 1(1) o Atodlen 1A i'r Ddeddf hon gan adran 34(2) o Ddeddf Dŵr 2003.

(**2**) 2002 p. 17. Diwygiwyd adran 25(4) gan baragraff 62(a) o Atodlen 15 i Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 (p. 7). Gwnaed diwygiadau i baragraff 4 o Atodlen 7 nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(**3**) 1969 p. 51. Gwnaed diwygiadau perthnasol i adran 1(2)(b) o'r Ddeddf hon gan baragraff 1(2) o Atodlen 1 i Orchymyn Bwrdd Croeso Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Bwrdd) 2005 (O.S. 2005/3225) (Cy. 237).

(**4**) 2000 p. 8. Mewnosodwyd adran 1A o'r Ddeddf hon gan adran 6(1) o Ddeddf Gwasanaethau Ariannol 2012 (p. 21). Mewnosodwyd Atodlen 1ZA i'r Ddeddf hon gan Atodlen 3 i Ddeddf Gwasanaethau Ariannol 2012.

(**5**) O.S. 2015/622 (Cy. 50).

| | |
|---|---|
| | Cyhoeddus 2013(**1**) |
| Bwrdd Cynghori Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân Cymru | Yr holl aelodau a benodwyd o dan baragraff 3 o Atodiad 2 i'r Cynllun yn Atodlen 1 i Orchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007(**2**), neu o dan baragraff 3 o Atodlen 5 i'r Cynllun yn Atodlen 1 i Orchymyn Cynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007(**3**) |
| Bwrdd Cynghorol Cymru ar Ddatblygu Diwydiannol | Yr holl aelodau a benodwyd o dan adran 13(2) o Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975(**4**) |
| Bwrdd y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig | Yr holl aelodau a benodwyd yn unol ag erthyglau 22 i 26 o'i Siarter Frenhinol a roddwyd ar 1 Ionawr 2017 |
| Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer ardal yng Nghymru | Y cadeirydd, yr is-gadeirydd a'r aelodau nad ydynt yn swyddogion a benodwyd o dan reoliad 4(1) o Reoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009(**5**), a'r aelodau cyswllt a benodwyd o dan reoliad 4(3) a (4) o'r Rheoliadau hynny |
| Y Bwrdd Rheoli Etholiadol | Aelodau sy'n swyddogion etholiadau, neu'n gyn-swyddogion etholiadau, fel y'u diffinnir o dan adran 20F(1)(c) o Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau |

(**1**) 2013 p. 25. Gwnaed diwygiadau i adran 7(1) o'r Ddeddf hon nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(**2**) O.S. 2007/1072 (Cy. 110).

(**3**) O.S. 2007/1073 (Cy. 111).

(**4**) 1975 p. 70.

(**5**) O.S. 2009/779 (Cy. 67). Diwygiwyd rheoliad 4(2) gan reoliad 3(a) o Reoliadau Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024 (O.S. 2024/1308 (Cy. 219)).

| | |
|---|---|
| | Cymru etc. 2013(**1**) |
| Y Bwrdd Ystadegau a sefydlwyd gan adran 1 o Ddeddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007(**2**) | Yr holl aelodau a benodwyd o dan adran 3(1) o Ddeddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007 |
| Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil a sefydlwyd o dan adran 1 o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022(**3**) | Yr holl aelodau a benodwyd o dan adran 1(2) o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 a pharagraff 2(1) o Atodlen 1 iddi, heblaw aelod sydd hefyd yn gyflogai i'r Comisiwn |
| Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru | Y Comisiynwyr a benodwyd yn unol â'i Warant Frenhinol a roddwyd ar 12 Gorffennaf 2000 |
| Y Comisiwn Ffiniau i Gymru | Y Comisiynwyr a'r Ysgrifennydd a benodwyd o dan baragraffau 2 a 7 o Atodlen 1 i Ddeddf Etholaethau Seneddol 1986(**4**) |
| Comisiwn y Gyfraith | Y Comisiynwyr ac aelodau Anweithredol y Bwrdd a benodwyd o dan adran 1(1) o Ddeddf Comisiynau'r Gyfraith 1965(**5**) |
| Y Comisiwn Penodiadau Barnwrol | Y Comisiynwyr a benodwyd o dan adran 61(2) o Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005(**6**) a pharagraff 1 o Atodlen 12 iddi |
| Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol | Y Panel Cynghori a benodwyd o dan adran 26(2) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015(**7**) |

(**1**) 2013 (dccc 4).
(**2**) 2007 p. 18.
(**3**) 2022 dsc 1.
(**4**) 1986 p. 56. Gwnaed diwygiadau perthnasol i baragraffau 2 a 7 o Atodlen 1 i'r Ddeddf hon gan baragraff 5(5) o Atodlen 2 i Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau) 2021 (O.S. 2021/1265).
(**5**) 1965 p. 22.
(**6**) 2005 p. 4. Amnewidiwyd paragraff 1 o Atodlen 12 i'r Ddeddf hon gan baragraff 17 o Atodlen 13 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22).
(**7**) 2015 (dccc 2).

| | |
|---|---|
| Comisiynydd Cyn-filwyr Cymru | Comisiynydd Cyn-filwyr Cymru |
| Y Comisiynydd Gwybodaeth | Y Comisiynydd Gwybodaeth a benodwyd o dan adran 114(2) o Ddeddf Diogelu Data 2018(**1**) a pharagraff 2(1) o Atodlen 12 iddi |
| Comisiynydd Heddlu a Throseddu | Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu fel y'i sefydlwyd gan adran 1 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011(**2**), ac unrhyw Ddirprwy a benodwyd gan y Comisiynydd o dan adran 18(1) o'r Ddeddf honno |
| Comisiynydd y Lluoedd Arfog fel y'i sefydlwyd gan adran 365AA o Ddeddf y Lluoedd Arfog 2006(**3**) | Comisiynydd y Lluoedd Arfog a benodwyd o dan adran 365AA o Ddeddf Comisiynydd y Lluoedd Arfog 2006 |
| Corff Adnoddau Naturiol Cymru a adwaenir fel Cyfoeth Naturiol Cymru | Y Prif Weithredwr, y Cadeirydd a'r aelodau a benodwyd o dan erthygl 3(2) o Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012(**4**) a pharagraff 2 o'r Atodlen iddo |
| Corff Llais y Dinesydd | Aelodau Anweithredol a benodwyd o dan adran 12(2) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020(**5**) a pharagraff 2(1)(a) i (c) o Atodlen 1 iddi |
| Corfforaeth Deledu Channel Four | Yr holl aelodau a benodwyd o dan adran 23(2) o Ddeddf Darlledu |

(**1**) 2018 p. 12.
(**2**) 2011 p. 13. Gwnaed diwygiadau i adran 1 o'r Ddeddf hon nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.
(**3**) 2006 p. 52. Mewnosodwyd adran 365AA o'r Ddeddf hon gan adran 1 o Ddeddf Comisiynydd y Lluoedd Arfog 2025 (p. 23).
(**4**) O.S. 2012/1903 (Cy. 230). Gwnaed diwygiadau i erthygl 3(2), ac i baragraff 2 o'r Atodlen, nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.
(**5**) 2020 dsc 1.

| | |
|---|---|
| | 1990(**1**) |
| Corfforaeth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol dros Gynilion Cyflogaeth | Yr holl aelodau a benodwyd o dan adran 75(5) o Ddeddf Pensiynau 2008(**2**) a pharagraff 1 o Atodlen 1 iddi |
| Y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (sef Student Loans Company Limited (rhif y cwmni 02401034)) | Y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr |
| Y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur | Yr holl aelodau a benodwyd o dan adran 31(b) o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006(**3**) a pharagraff 1 o Atodlen 4 iddi |
| Cyd-bwyllgor Comisiynu Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru | Y Cadeirydd, yr aelod cyswllt a'r aelodau nad ydynt yn swyddogion, a adwaenir fel aelodau lleyg, a benodwyd gan Weinidogion Cymru o dan reoliad 3(1)(b), (c) a 3(2) o Reoliadau Cyd-bwyllgor Comisiynu Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2024(**4**) |
| Cyd-bwyllgorau Corfforedig | Holl aelodau pwyllgor a sefydlwyd o dan adran 72, neu adran 74, o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021(**5**) |
| Cynghorau Cymuned | Swyddog cyflogedig a chanddo gyfrifoldeb, at ddibenion adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**6**), am weinyddu materion ariannol y cyngor cymuned, a pherson sy'n dal swydd â thâl sydd |

(**1**) 1990 p. 42. Gwnaed diwygiadau perthnasol i adran 23(2) o'r Ddeddf hon gan baragraff 13 o Atodlen 15 i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (p. 21).

(**2**) 2008 p. 30.

(**3**) 2006 p. 16.

(**4**) O.S. 2024/135 (Cy. 29).

(**5**) 2021 dsc 1.

(**6**) 1972 p. 70. Gwnaed diwygiadau i adran 151 o'r Ddeddf hon gan reoliad 5 o Reoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/1349) (Cy. 175).

| | |
|---|---|
| | wedi ei phennu am y tro gan y cyngor cymuned yn y rhestr a gynhelir yn unol ag adran 2(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989(**1**), ac unrhyw gyfarwyddydau o dan adran 3 o'r Ddeddf honno |
| Cyngor Celfyddydau Cymru | Yr holl aelodau a benodwyd yn unol ag erthygl 4(2) o'i Siarter Frenhinol, a roddwyd ar 30 Mawrth 1994 |
| Cyngor Chwaraeon Cymru a adwaenir fel Chwaraeon Cymru | Yr holl aelodau a benodwyd yn unol ag erthygl 1(1) o'i Siarter Frenhinol a roddwyd ar 4 Chwefror 1972 |
| Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr | Holl aelodau'r Cyngor a phob pwyllgor rhanbarthol o'r Cyngor a sefydlwyd o dan adran 27A o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991(**2**) |
| Cyngor y Gweithlu Addysg | Yr holl aelodau a benodwyd o dan adran 2(2) o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014(**3**) a pharagraff 3(1) o Atodlen 1 iddi |
| Cyngor Partneriaeth y Gymraeg | Yr holl aelodau a benodwyd o dan adran 149(2) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011(**4**) |
| Y Cyngor Prydeinig (sef British Council (rhif y cwmni RC000060)) | Y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr a benodwyd yn unol ag Is-ddeddf 4, neu erthygl 14, o'i Siarter Frenhinol Atodol a roddwyd ar 26 Tachwedd 1993 |
| Cymwysterau Cymru fel y'i sefydlwyd gan adran 2 o Ddeddf Cymwysterau Cymru | Yr holl aelodau a benodwyd o dan adran 2 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 a |

(**1**) 1989 p. 42. Gwnaed diwygiadau i adran 2 o'r Ddeddf hon nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn. Gwnaed diwygiadau i adran 3 o'r Ddeddf hon gan reoliad 10(4)(b) o Reoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/1349) (Cy. 175).

(**2**) 1991 p. 56. Mewnosodwyd adran 27A gan adran 35(1) o Ddeddf Dŵr 2003 (p. 37).

(**3**) 2014 (dccc 5).

(**4**) 2011 (mccc 1).

| | |
|---|---|
| 2015(**1**) | pharagraff 2 o Atodlen 1 iddi |
| Development Bank of Wales Public Limited Company (rhif y cwmni: 04055414) ac unrhyw gwmni neu unrhyw is-gwmni sydd o dan berchnogaeth lwyr Development Bank of Wales Public Limited Company (rhif y cwmni: 04055414) | Yr holl Gyfarwyddwyr |
| Dyfarnwr Annibynnol Awdurdodau Lleol Cymru | Yr holl aelodau a benodwyd o dan adran 75(5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**2**) |
| Gofal Cymdeithasol Cymru | Yr holl aelodau a benodwyd o dan adran 67(4) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(**3**) a pharagraff 2(1) o Atodlen 2 iddi |
| Y Gronfa Diogelu Pensiynau | Yr holl aelodau o'r Bwrdd a benodwyd o dan adran 108 o Ddeddf Pensiynau 2004(**4**), a'r Ombwdsmon ar gyfer Bwrdd y Gronfa Diogelu Pensiynau a benodwyd o dan adran 209 o'r Ddeddf honno, ac unrhyw ddirprwy i'r Ombwdsmon hwnnw a benodwyd o dan adran 210 o'r Ddeddf honno |
| Y Gronfa Loteri Fawr | Yr holl aelodau a benodwyd o dan baragraff 1 o Atodlen 4A i Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993(**5**), neu holl aelodau pwyllgor a sefydlwyd o dan baragraff 7(1)(b) o'r Atodlen honno |

(**1**) 2015 (dccc 5).
(**2**) 2000 p. 22.
(**3**) 2016 (dccc 2).
(**4**) 2004 p. 35. Gwnaed diwygiadau i adran 209 o'r Ddeddf hon nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.
(**5**) 1993 p. 39. Gwnaed diwygiadau i baragraff 1, ac i baragraff 7(1)(b), o Atodlen 4A i'r Ddeddf hon nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

| | |
|---|---|
| Y Gwasanaeth Arian a Phensiynau | Y Cyfarwyddwyr a benodwyd o dan adran 1(2) o Ddeddf Cyfarwyddyd Ariannol a Hawliadau 2018(**1**) a pharagraff 2(1)(b) o Atodlen 1 iddi |
| Y Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu | Holl aelodau'r Cyngor a benodwyd o dan adran 248(1) o Ddeddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992(**2**) |
| Y Gwasanaeth Tân ac Achub | Arolygydd neu Arolygydd Cynorthwyol a benodwyd o dan adran 28 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004(**3**) |
| Y Gweinyddwr Annibynnol Cwynion Dŵr Daear | Y Gweinyddwr Annibynnol Cwynion Dŵr Daear a benodwyd o dan adran 21 o Ddeddf Morglawdd Bae Caerdydd 1993(**4**) a pharagraff 27 o Atodlen 7 iddi |
| Hybu Cig Cymru (Rhif y cwmni: 4635113) | Yr holl aelodau |
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru (rhif yr elusen: 525775) | Yr Ymddiriedolwyr a benodwyd gan Weinidogion Cymru yn unol ag erthygl 3 o'i Siarter Atodol a roddwyd ar 19 Gorffennaf 2006 |
| Yr Ombwdsmon Penodiadau ac Ymddygiad Barnwrol | Yr Ombwdsmon Penodiadau ac Ymddygiad Barnwrol a benodwyd o dan adran 62(2) o Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005 a pharagraff 1 o Atodlen 14 iddi |
| Yr Ombwdsmon Pensiynau | Yr Ombwdsmon Pensiynau a benodwyd o dan adran 145 o Ddeddf Cynlluniau Pensiwn |

(**1**) 2018 p. 10.
(**2**) 1992 p. 52.
(**3**) 2004 p. 21. Gwnaed diwygiadau perthnasol i adran 28 o'r Ddeddf hon gan adran 11 o Ddeddf Plismona a Throseddu 2017 (p. 3).
(**4**) 1993 p. 42. Gwnaed diwygiadau i baragraff 27 o Atodlen 7 i'r Ddeddf hon nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

| | |
|---|---|
| | 1993(**1**) ac unrhyw ddirprwy i'r Ombwdsmon hwnnw a benodwyd o dan adran 145A o'r Ddeddf honno |
| Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru | Y Cadeirydd, a'r aelod amaethyddiaeth annibynnol, a'r aelod addysg annibynnol, a benodwyd gan Weinidogion Cymru o dan erthyglau 4 a 5 o Orchymyn Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru (Sefydlu) 2016(**2**) |
| Panel Dyfarnu Cymru | Yr holl aelodau a benodwyd o dan adran 75(5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**3**) |
| Y Pwyllgor Cynghori ar Bathogenau Peryglus | Yr holl aelodau |
| Y pwyllgor cynghori i Gymru a sefydlwyd o dan adran 5(1) o Ddeddf Safonau Bwyd 1999(**4**) | Yr holl aelodau a benodwyd o dan baragraff 2 o Atodlen 2 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 |
| Y Pwyllgor Newid Hinsawdd | Yr holl aelodau a benodwyd o dan adran 32(2) o Ddeddf Newid Hinsawdd 2008(**5**) a pharagraff 1 o Atodlen 1 iddi |
| Pwyllgorau asesu rhenti ar gyfer ardal neu ardaloedd y mae pob rhan ohoni neu ohonynt yng Nghymru | Holl aelodau panel a sefydlwyd o dan Atodlen 10 i Ddeddf Rhenti 1977(**6**) |
| Y Rheoleiddiwr Pêl-droed Annibynnol a sefydlwyd o dan adran 5 o Ddeddf Llywodraethiant Pêl-droed 2025(**7**) | Yr holl aelodau a'r holl staff a benodwyd o dan adran 5(2) o Ddeddf Llywodraethiant Pêl-droed 2025 a pharagraff 1(1) a (2) o Atodlen 2 iddi |

(**1**) 1993 p. 48. Gwnaed diwygiadau i adran 145 o'r Ddeddf hon nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn. Mewnosodwyd adran 145A o'r Ddeddf hon gan adran 274(3) o Ddeddf Pensiynau 2004 (p. 35).

(**2**) O.S. 2016/255 (Cy. 89).

(**3**) 2000 p. 22.

(**4**) 1999 p. 28.

(**5**) 2008 p. 27.

(**6**) 1977 p. 42. Gwnaed diwygiadau i Atodlen 10 i'r Ddeddf hon nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(**7**) 2025 p. 21.

| | |
|---|---|
| Y Rheoleiddiwr Pensiynau | Yr holl aelodau, ac aelodau'r pwyllgorau a sefydlwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau o dan adran 9 o Ddeddf Pensiynau 2004 |
| Y Sefydliad Rheoli Morol | Yr holl aelodau a benodwyd o dan adran 1(3) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009(**1**) a pharagraff 3(1) o Atodlen 1 iddi |
| Sianel Pedwar Cymru | Yr holl aelodau a benodwyd yn unol ag adran 56(1)(b) o Ddeddf Darlledu 1990(**2**) |
| Y Swyddfa Annibynnol ar gyfer Ymddygiad yr Heddlu | Yr holl aelodau a benodwyd o dan adran 9(2) o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002(**3**) |
| Swyddfa Archwilio Cymru a adwaenir fel Archwilio Cymru | Yr holl staff a'r holl archwilwyr sy'n darparu gwasanaethau archwilio i Swyddfa Archwilio Cymru neu Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan adran 13(2) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013(**4**) a pharagraff 22(1) o Atodlen 1 iddi |
| Y Swyddfa Gyfathrebiadau | Yr holl aelodau a benodwyd o dan adran 1(3) o Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002(**5**) |
| Y Swyddog Ardystio ac unrhyw swyddog ardystio cynorthwyol a chanddo swyddogaethau o dan Ddeddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992(**6**) | Y Swyddog Ardystio ac unrhyw swyddog ardystio cynorthwyol a benodwyd o dan adran 254 o Ddeddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992 |
| Trafnidiaeth Cymru (sef | Y Cyfarwyddwyr |

(**1**) 2009 p. 23.
(**2**) 1990 p. 42.
(**3**) 2002 p. 30. Diwygiwyd adran 9(2) o'r Ddeddf hon gan adran 33(5) o Ddeddf Plismona a Throseddu 2017 (p. 3).
(**4**) 2013 (dccc 3).
(**5**) 2002 p. 11. Diwygiwyd adran 1(3) o'r Ddeddf hon gan adran 68(2) o Ddeddf Cymru 2017 (p. 4). Gwnaed diwygiadau eraill i adran 1(3) o'r Ddeddf hon nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.
(**6**) 1992 p. 52. Gwnaed diwygiadau i adran 254 o'r Ddeddf hon nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

| | |
|---|---|
| Transport for Wales (rhif y cwmni 09476013)) | |
| Tribiwnlys a gyfansoddwyd o dan adran 27 o Ddeddf Addysg 2005(**1**) a pharagraff 1 o Atodlen 3 iddi | Yr holl aelodau a benodwyd o dan baragraff 1 o Atodlen 3 i Ddeddf Addysg 2005 |
| Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru | Yr holl aelodau a benodwyd o dan adran 65(2) o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983(**2**) a pharagraff 1 o Atodlen 2 iddi |
| Tribiwnlys Addysg Cymru | Yr holl aelodau a benodwyd o dan adran 91(2) o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018(**3**) |
| Tribiwnlys y Gymraeg | Yr holl aelodau a benodwyd o dan adran 120(2) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 |
| Tribiwnlys Prisio Cymru | Yr holl aelodau a benodwyd o dan reoliad 9(1) o Reoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru 2010(**4**) |
| Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru | Yr holl aelodau a benodwyd o dan baragraff 13(1) a pharagraff 16 o Atodlen 9 i Ddeddf Amaethyddiaeth 1947(**5**) |
| Tribiwnlys y cyfeirir ato ym mharagraff 10 o Atodlen 26 i Ddeddf | Yr holl aelodau a benodwyd o dan baragraff 1 o Atodlen 3 i |

(**1**) 2005 p. 18. Gwnaed diwygiadau i Atodlen 3 i'r Ddeddf hon gan adran 62(6) o Ddeddf Cymru 2017 (p. 4); mae offerynnau diwygio eraill, ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(**2**) 1983 p. 20. Gwnaed diwygiadau i adran 65(2) o'r Ddeddf hon, ac i baragraff 1 o Atodlen 2 iddi, nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(**3**) 2018 (dccc 2).

(**4**) O.S. 2010/713 (Cy. 69). Amnewidiwyd rheoliad 9 gan reoliad 8 o Reoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru (Diwygio) 2017 (O.S. 2017/941 (Cy. 121)).

(**5**) 1947 p. 48. Gwnaed diwygiadau i baragraff 13(1) o Atodlen 9 i'r Ddeddf hon, gan baragraff 193(2)(b) o Atodlen 1 i Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau Tribiwnlysoedd 2013 (O.S. 2013/1036), a chan baragraff 4 o Atodlen 10 i Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 (p. 15). Amnewidiwyd paragraff 16(1) o Atodlen 9 i'r Ddeddf hon gan baragraff 193(6) o Atodlen 1 i Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau Tribiwnlysoedd 2013 (O.S. 2013/1036).

| | |
|---|---|
| Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**1**) | Ddeddf Addysg 2005 |
| Tribiwnlysoedd Cyflogaeth a Thribiwnlysoedd Apelau Cyflogaeth | Yr holl aelodau a benodwyd o dan adran 4(1), neu adran 22(1), o Ddeddf Tribiwnlysoedd Cyflogaeth 1996(**2**) |
| Tribiwnlys(oedd) Haen Gyntaf Llysoedd Cymru a Lloegr | Yr holl aelodau a benodwyd yn unol ag adran 4 o Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007(**3**) a pharagraffau 1(1) a 2(1) o Atodlen 2 iddi |
| Uwch Dribiwnlys(oedd) Llysoedd Cymru a Lloegr | Yr holl aelodau, heblaw Barnwyr yr Uwch Dribiwnlys(oedd)(**4**), a benodwyd yn unol ag adran 5 o Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 a pharagraffau 1(1) a 2(1) o Atodlen 3 iddi |
| Ymddiriedolaeth y Gwasanaeth Iechyd Gwladol y mae pob un o'i hysbytai, ei sefydliadau a'i chyfleusterau eraill, neu'r mwyafrif ohonynt, yng Nghymru | Yr holl aelodau a benodwyd yn unol ag adran 18(4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**5**), a pharagraff 3 o Atodlen 3 iddi, heblaw aelod sydd hefyd yn gyflogai i'r Ymddiriedolaeth GIG |

(**1**) 1998 p. 31. Gwnaed diwygiadau i baragraff 10(2) o Atodlen 26 i'r Ddeddf hon gan baragraff 16 o Atodlen 7 i Ddeddf Addysg 2005 (p. 18); mae offerynnau diwygio eraill, ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(**2**) 1996 p. 17. Gwnaed diwygiadau perthnasol i adran 22(1)(a) o'r Ddeddf hon gan baragraff 246(2)(a) o Atodlen 4 i Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005 (p. 4), gan baragraff 11(2) o Atodlen 14 iddi, a chan baragraff 1 o Atodlen 18 iddi.

(**3**) 2007 p. 15. Gwnaed diwygiadau i adrannau 4 a 5 o'r Ddeddf hon, ac i Atodlenni 2 a 3 iddi, nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(**4**) Mae Barnwyr yr Uwch Dribiwnlys wedi eu hanghymhwyso rhag bod yn Aelodau o'r Senedd, a rhag bod yn ymgeiswyr i fod yn Aelodau o'r Senedd, yn rhinwedd adran 16(A1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a'r Tabl yn Rhan 2 o Atodlen 1A iddi.

(**5**) 2006 p. 42. Diwygiwyd paragraff 3 o Atodlen 3 i'r Ddeddf hon gan adran 24(2)(a) a (b) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 (dsc 1).